




WELSH
NATIONAL
OPERA
CENEDLAETHOL
CYMRU

Creu Estyn Allan Ysbrydoli

Adolygiad Blynnyddol 2018/2019

Croeso



Mae 2018/2019 wedi bod yn flwyddyn fawr arall i Opera Cenedlaethol Cymru. Eleni rydym wedi creu rhai o'n gwaith mwyaf mentrus ac uchelgeisiol. Rydym wedi estyn ymhellach – mynd ar daith ledled Cymru, Lloegr a thu hwnt, gan weithio mewn rhai o'r rhannau mwyaf bregus a difreintiedig o'n cymunedau lleol, a darparu hyd yn oed mwy o gyfleoedd i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o berformwyr, ymarferwyr ac arweinwyr creadigol.

**Rydym yn credu yng
ngrym opera i drawsnewid
bywydau. Yn 2018/19, bu
i ni ymgysylltu â thros
145,000 o bobl trwy ein
perfformiadau byw a'n
gwaith estyn allan.**

‘Mae’n teimlo fel croesddywediad dweud ein bod yn dechrau ar gyfnod newydd wrth i mi ymgymryd â'r faint o gadeirio Bwrdd cwmni opera a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 75 oed yn 2021. Fodd bynnag, gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol newydd sef Aidan Lang a phum aelod newydd yn gwasanaethu ar y bwrdd, mae ffresni ac optimistiaeth am y dyfodol yng ngwead a blas arweinyddiaeth y Cwmni. Ein nod bob amser yw dod ag opera i gynifer o bobl â phosibl yng Nghymru, Lloegr a thu hwnt. Mae teithio yn ein DNA ac mae gweithio mewn

cymunedau, ysgolion a thu hwnt i'r theatr yn elfen bwysig a gwerthfawr o'n gweithgareddau. Byddwn yn parhau â hyn gyda mwy o egni a gydag offer technoleg newydd a chyfryngau cymdeithasol sy'n galluogi pobl i gael mynediad at ein gwaith mewn ffyrdd newydd ac amrywiol a denu cynulleidfaeodd newydd ac amrywiol. Yn ogystal, byddwn yn parhau i ysbyrdoli a denu artistiaid mwyaf dawnus y dydd ac yn edrych ymlaen at weld y Cwmni yn mynd o nerth i nerth.’

**Yvette Vaughan-Jones
Cadeirydd WNO**





'Pleser yw cyflwyno'r Adolygiad Blynnyddol hwn, fy nghyntaf fel Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae chwe mis wedi mynd heibio ers i mi ddychwelyd i Gaerdydd i ymuno â'r tîm yn Opera Cenedlaethol Cymru, lle y dechreuais fy ngyrfa opera o ddifrif, lle ffurfiwyd fy safbwyt ynglŷn â 'beth ddylai opera fod' am y tro cyntaf a'r cwmni yr wyf bob amser wedi'i ystyried fel fy nghartref artistig.'

Mae'r misoedd diwethaf wedi ein hatgoffa bod WNO yn gallu siarad â chymaint o gynulleidfaedd drwy ei waith teithio, sydd yn ei dro yn rhoi cyfle hynod gyffrous i ni ymgysylltu â chymunedau gwahanol ledled y wlad a deall sut y gall opera gyffroi ystod eang o bobl. Ychwanegwch hyn at yr amrywiaeth o weithgareddau a gyflwynir drwy gydol y flwyddyn gan ein hadran leuenctid a Chymuned, ein cyngherddau cerddorfaol a'r daith raddfa ganolig, a gellir gweld yn glir faint o waith a wnawn, a sgiliau a doniau ein timau cyflwyno. Mae'n sylfaen gadarn iawn i adeiladu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol arni.'

**Aidan Lang
Cyfarwyddwr Cyffredinol WNO**

'Yn 2018/2019, profodd Cerddorfa a Chorws WNO eu safon artistig drwy gydol y flwyddyn.

I mi yn bersonol, roedd tymor yr Hydref 18/19 yn gyfnod o weithio ar ddrama gerdd ddwys – *War and Peace* gan Prokofiev. Roedd yn gyflawniad hynod Iwyddiannus i'r Cwmni, a chafodd yr egni a grëwyd ar y llwyfan ac ym mhwl y gerddorfa gymeradwyaeth enfawr gan y gynulleidfa. Mewn cyferbyniad, cafodd pawb lawenhâd o gymryd rhan yn *La Cenerentola* gan Rossini, a phrofodd gerddorfa WNO ei sgiliau uchel drwy newid rhwng y gwahanol arddulliau bob nos.

Ym mis Rhagfyr, teithiodd y Cwmni i Brno ar gyfer digwyddiad hynod arbennig, i berformio *From the House of the Dead* yng Ngŵyl Ryngwladol Janáček. Gellir ystyried lefel artistig y perfformiad, yn ogystal â'r gymeradwyaeth a dderbynwyd gan y cyfryngau a'r cyhoedd, fel un o uchaffwyntiau presenoldeb ryngwladol WNO, gan gynrychioli WNO yn ogystal â Chaerdydd a Chymru ar llwyfan ryngwladol.

Yn yr Haf, cefais yr anrhydedd o weithio gyda Syr David Pountney ac aelodau o Opera leuenctid WNO ar *Brundibár*, darn a berformiwyd gyntaf gan blant yng ngwersyll crynhoi Theresienstadt yn ystod yr Holocost. Roedd *Brundibár* yn caniatâu'r plant i anadlu, profi urddas dynol, cyfeillgarwch a harddwch yn wyneb y drefn Natsïaidd a oedd yn ceisio dwyn eu gobaith a'u paratoi ar gyfer marwolaeth yn unig. Mae pob plentyn, waeth beth yw eu hamgylchiad, yn haeddu teimlo'r goleuni y gall y celfyddydau a rhyddid creadigol eu rhoi.'

Tomás Hanus
Cyfarwyddwr Cerdd WNO



105,000

o bobl yng nghynulleidfa oedd opera a chyngerddau byw ledled y byd

40,000

o bobl wedi ymgysylltu trwy waith ieuenciad, cymuned a digidol

53,000

o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol

125

o berfformiadau byw

120,000

o bobl yng nghynulleidfa oedd darllediadau ar y teledu a'r radio

202,000

o ddefnyddwyr gwefan unigryw

101,000

wedi gwyllo fideo ar YouTube

36

o leoliadau teithio



Creu

O gynrychiadau mentrus newydd yn ymdrin â rhai o faterion cymdeithasol-gwleidyddol heriol ein hoes, i lwyfannu peth o'r gerddoriaeth a theatr fwyaf poblogaidd erioed, neu ailosod clasur opera gomig oesol mewn fan gebab hyd yn oed – **mae Opera Cenedlaethol Cymru yn creu celfyddyd sydd at ddant pawb.**



Estyn Allan

Aberdâr, Aberhonddu, Bangor, Birmingham,
Bristol, Brno, Caerdydd, Dubai, Hwlffordd,
Hereford, Liverpool, Llandudno, London,
Aberdaugleddau, Milton Keynes, Yr Wyddgrug,
Casnewydd, Y Drenewydd, Northampton,
Norwich, Oxford, Plymouth, Saffron Walden,
Shrewsbury, Southampton, Llanelwy, Tyddewi,
Abertawe, Swindon, Winchester, Yeovil

Mae teithio yn hanfodol i ni. Eleni, cyrhaeddodd ein
cynrychiadau a chyngherddau hyd yn oed mwy o
drefi a dinasoedd ledled Cymru, Lloegr a thu hwnt.



Ysbrydoli

Bob blwyddyn, mae ein tîm leuenctid a Chymuned yn helpu i ysbrydoli degau ar filoedd o bobl ar draws ein cymunedau, o ddawn ifanc uchelgeisiol i rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymuned. Ond mae un amod:

Mae croeso i bawb.



'Daw WNO â lefel o ragoriaeth yn y celfyddydau ac mae hyn yn hynod bwysig, yn enwedig mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol mawr. Mae'r celfyddydau ar gyfer pawb ac mae'r mathau hyn o gyfleoedd yn cael gwared ar y rhwystro'r rhwng grwpiau cymdeithasol.' Mrs Meehan St Chad's Catholic Primary School



'Am berfformiad arbennig...rydw i'n dal i ddod ataf fy hun!

Alyson Macdonald
Rhiant Opera leuenctid WNO

'Ni all geiriau ddisgrifio sut ydw i'n teimlo – rydym yn ei roi mewn cerddoriaeth. Rwyf yn hynod falch o'n Corws Cymunedol.'

Rob Guy Arweinydd –
Corws Cymunedol y Gogledd



Dros **1,000** o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn ein grwpiau a'n sesiynau blasu **Opera Ieuencid WNO** yng Nghaerdydd, Llandudno a Birmingham, gan berfformio i dros **1,600** o bobl yn ystod y flwyddyn.

Roedd dros **80%** o'n cyfranogwyr **Opera Ieuencid WNO yn Birmingham** yn dod o gefndiroedd du, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Bu i'n rhaglen o weithdai, digwyddiadau a chyngherddau ar gyfer ysgolion weithio gyda dros **4,500** o ddisgyblion ar draws **118** o ysgolion yng Nghymru, Lloegr a thramor.

Bu i **1,600** fynychu ein **Cyngherddau i'r Teulu** yng Nghaerdydd, Birmingham a Southampton.

Bu i **380** o gantorion gymryd rhan yn ein **Corau Cymunedol yng Ngogledd a De Cymru**, gan berfformio i dros **5,000** o bobl.

Cymerodd **1,700** o bobl ran yn ein digwyddiadau am ddim **Dewch i Ganu**.

Bu i **13,000** o bobl ymweld â'n profiadau digidol ledled y wlad.

Cefnogir gweithgareddau Ieuencid, Cymunedol a Digidol WNO gan roddion hael gan Andrew Fletcher, Clive & Sylvia Richards, Esmée Fairbairn Foundation, Garfield Weston Foundation a Hodge Foundation.

Corws a Cherddorfa

Corws a Cherddorfa WNO yw asgwrn cefn cerddorol ac artistig y Cwmni. Eleni, buont yn ymladd ym mrwydr Moscow yn ein cynhyrchiad newydd hynod llwyddiannus o *War and Peace*; dod â blas ar ddawnsfeydd a theatrau'r 19eg ganrif ledled Cymru gyda thaith ein cyngerdd *Noson yn Fienna*; ac, yn llythrennol, yn dawsio gyda marwolaeth yn ail ran ein Trioleg Verdi, *Un ballo in maschera*.

Dysgwch fwy ynglŷn â gwaith arbennig Cerddorfa WNO yma.

La traviata
Verdi

'cerddorfa swynol a'r lleisiau bywiog, byrlymus, y cwbl wedi'u cyfuno i dynnu'r gynulleidfa mor agos nes ei bod wirioneddol wedi'i chyfareddu...'

Jonathan Sutton
Buzz



War and Peace
Prokofiev

'Dyma gorws Opera Cenedlaethol Cymru, wedi'r cwbl. Gwyddoch y byddant yn arbennig, ac maent yn llwyddo bob tro.'

Richard Bratby
The Spectator

Eleni, derbyniodd WNO dros 60 o adolygiadau pedair a phum seren ar draws y wasg leol a chenedlaethol.

Un ballo in maschera
Verdi

'...llwyddar arweinydd Carlo Rizzi i lywyddu dros gast a cherddorfa mewn modd hynod arbennig.'

Rian Evans
The Guardian



La Cenerentola
Rossini

'Mae'r gerddorfa dan arweiniad Tomás Hanus yn ei helfen wrth iddi garlamu ymlaen ar gyflymder dychrynllyd y libreto, tra bod y corws ar ei orau chwareus drwy'r cyfan.'

Mark Rees
South Wales Evening Post



★★★★★ Buzz

★★★★★ The Stage

★★★★★ The Morning Star

Doner PASQUALE

Yn haf 2019 daethom â'n fersiwn newydd, hwylig o opera gomig glasurol Donizetti, *Don Pasquale*, i theatrau maint canolig ledled Cymru a Lloegr, gan barhau â'n hymrwymiad i gyrraedd mwy o bobl mewn mwy o lefydd. Wedi'i lleoli yn ac o gwmpas fan gebab doner Pasquale, dyma ***Don Pasquale fel nad ydych erioed wedi'i gweld na'i chlywed o'r blaen.***

Cast a Chreadigol

Don Pasquale Andrew Shore

Ernesto Nico Darmanin

Norina Harriet Eyley (Artist Cyswllt WNO)

Malatesta Quirijn de Lang

Cyfarwyddwr Daisy Evans

Cyfarwyddwr Cerddorol Stephen Higgins

Cymerwch gipolwg ar ein gwaith caled yn ein ffilm fywiog y Tu Ôl i'r Llen. 

Don Pasquale. Nico Darmanin (Ernesto). Llun gan Robert Workman

*Cebabs Pasquale
Once Eater, Never Beater'*

Wedi'i gweld gan dros 4,000 o bobl

Aberdâr, Aberhonddu, Bangor, Birmingham, Hereford, Aberdaugleddau, Yr Wyddgrug, Casnewydd, Norwich, Oxford, Shrewsbury, Abertawe, Winchester, Yeovil

'Cynhyrchiad gorfoddelus o anarchaidd.' Steph Power The Stage

'Rwy'n dal i chwerthin!'

Michael Kelligan Theatre in Wales

Cefnogir gan Colwynston Charitable Trust





RHYDDID FREEDOM

PUM
OPERA

SAITH
SGWRS A
THRAFODAETH

CHWE
ARDDANGOSFA A
GOSODIAD DIGIDOL

UN
TYMOR
ARBENNIG

Yn haf 2019, cyflwynasom RHYDDID WNO, Tymor o operâu, sgyrsiau, dadleuon, trafodaethau, arddangosfeydd a phrosiectau digidol yn mynd i'r afael â materion cyfiawnder, rhyddid a hawliau dynol. Ymunwch â ni, wrth i ni edrych ar rai o'r uchafbwyntiau lu.

Dysgwch fwy

Yn ystod y Tymor, croesawom dros

2,400 12,000 200

o fynychwyr opera

o ymwelwyr â'r
arddangosfa

o gyfranogwyr sgyrsiau,
dadleuon a thrafodaethau

Dymuna WNO ddiolch i holl bartneriaid a chefnogwyr ein Tymor RHYDDID:

ABP South Wales, Amnesty International UK, BBC Cymru Wales / Research and Development, Cardiff University School of Modern Languages, Chapter Arts Centre, Children's Commission for Wales, The Darkley Trust, David Seligman in memory of Philippa Seligman, The Edith Rudiger Gray Trust, Gibbs Charitable Trust, National Assembly for Wales, Oasis Cardiff, University of South Wales, Wales Millennium Centre, Welsh Centre for International Affairs, Welsh Refugee Council



Cefnogir gan ASSOCIATED
BRITISH PORTS

Lester Lynch yn *The Prisoner*. Llun gan Richard Hubert Smith

Opera



O bortread dewr Jake Heggie o drosedd a gwaredigaeth; astudiaeth fynegiadol Dallapiccola o artaith gobaith; a chwedl swynol Hans Krásá o'r diniwed yn trechu'r drwg – y mae hanes ei berfformiad yn rhan o un o'r penodau tywyllaf ym mhrofiad dynol – y tymor hwn gwelwyd WNO ar ei orau a'i fwyaf mentrus, a chael llwyddiant ysgubol yn y broses.

Dead Man Walking Heggie

'Perfformiad o ddwyster dirdynnol.'

Steph Power **The Stage**



The Prisoner | Fidelio Act II

Dallapiccola | Beethoven

'Corws WNO a Chorws Cymunedol WNO, yn cyfuno'n odidog yn y diweddglo gorfoddolus.'

Rian Evans **The Guardian**



The Consul Menotti

'Wedi'i gyflwyno gan gast cryf, mewn ffordd emosiynol a oedd yn rhoi profiad emosiynol i'r gynulleidfa.'

Melissa Compton **Cardiff Times**

Brundibár Krásá

'Dan arweiniad mab goroeswr Terezín, rhoddodd Opera Ieuengtid WNO eu hymdrehch i gyd mewn cynhyrchiad llethol o opera i blant Hans Krásá.'

Fiona Maddocks **The Observer**



The Consul. Llun gan Johan Persson

Wedi'i enwebu ar gyfer y Royal Philharmonic Society 2019 Award am Gyfres o Gyngherddau a Digwyddiadau

Profiad

Fel rhan o'n Tymor RHYDDID, cawsom y faint o gyflwyno arddangosfa aml-gyfrwng wedi'i churadu'n arbennig yn cynnwys gwaith rhyngwladol gan ystod eang o artistiaid a gwneuthurwyr ffilm llwyddiannus a oedd wedi'u hysbrydoli a'u dylanwadu gan straeon o wytnwch, hunaniaeth, gobaith, rhyddhad a symudiad. Dysgwch fwy ►



TERMINAL 3

Asad J. Malik

Prosiect realiti estynedig yn archwilio hunaniaethau Mwslemaidd cyfoes yn yr UDA drwy lens holiad maes awyr.

THE LAST GOODBYE

Gabo Arora, Ari Palitz

Tystiolaeth emosiynol goroeswr yr holocost, Pinchas Gutter, o'i ymwelliad olaf â Gwersyll Crynhoi Majdanek, wedi'i hadrodd drwy ffilm realiti rhithwir cwbl ymgollol.

FUTURE ALEPOO

Mohammed Kteish, Alex Pearson ac Andy Overton

Ffilm realiti rhithwir yn dogfennu ymgais un bachgen i ailadeiladu, ar bapur, atgof ac ysbryd y cartref y gor fodwyd ef i'wadael.

FREEDOM 360

BBC Wales, Opera Cenedlaethol Cymru

Cydweithrediad cwbl ymdrochol rhwng WNO a'r BBC yn pwysleisio straeon personol pum fforadur a gafodd eu gorfodi i adael eu cartrefi cyn dod o hyd i fywyd newydd yng Nghymru.

FLUORESCENCE

Carys Lewis, Gwneuthurwr Ffilm Preswyll WNO

Gwaith ar y cyd ag arlunydd o Syria, Kianna Issa, mae'r ffilm hon yn dogfennu lleisiau rhai o'r merched ifanc a oedd yn byw gyda nhw yn Ystafell 28 ac a gafodd eu llofruddio yn yr Holocost.

THE GIRLS OF ROOM 28

Hannelore Brenner

Arddangosfa a grëwyd mewn cydweithrediad â goroeswyr gwrsyll crynhoi Theresienstadt i gofio'r merched ifanc a oedd yn byw gyda nhw yn Ystafell 28 ac a gafodd eu llofruddio yn yr Holocost.

'Roedd BBC Wales yn hynod falch o fod yn rhan o'r arddangosfa ochr yn ochr â Thymor Rhyddid WNO. Yn sicr, dyma'r tro cyntaf i Gaerdydd gael yr ystod hon o brofiadau VR/AR o safon gyda'i gilydd mewn un lle, ac mae'n dda ar gyfer amlygrwydd y sector technoleg Ymdrochol cynyddol yng Nghymru.' Robin Moore Pennaeth Arloesedd, BBC Cymru Wales



Y Gymuned

Yn 2018/2019, bu i WNO ddechrau ar bartneriaeth pum mlynedd gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru. Ein nod yw datblygu prosiectau ar y cyd gyda sefydliadau partner ffoaduriaid a cheiswyr lloches lleol; creu cyfleoedd newydd i gerddorion ac artistiaid yn y gymuned hon i ddatblygu ac arddangos eu gwaith; a chreu gwaith sy'n cynrychioli'n gyfan gwbl y cymunedau amrywiol yr ydym ni'n eu gwasanaethu.



Cefnogir Beyond the Rainbow gan The Darkley Trust



Hope Has Wings a Beyond The Rainbow Samuel Gosrani (Kumar) a Imran Chaudhry (Nawfel). Lluniau gan Polly Thomas a Tess Seymour

Y flwyddyn hon, rydym wedi ymgymryd â phreswylfa yng Nghanolfan Oasis, Caerdydd, gan ddwyn ynghyd ffoaduriaid, ceiswyr lloches, Ymarferwyr WNO a myfyrwyr cerddoriaeth i greu cyfansoddiad newydd a ysbrydolir gan eu gwahanol ieithoedd a diwylliannau, *Hope has Wings*. Bu i ni hefyd ddwyn ynghyd artistiaid proffesiynol ac uchelgeisiol o gymunedau ffoaduriaid a cheiswyr lloches lleol yng Nghaerdydd i greu darn o theatr ddatblygiadol, *Beyond the Rainbow*, yn archwilio'r mythau y mae cyfryngau'r brif ffrwd wedi'u creu yngl n â ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

'Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru ar ben ei ddigon bod artistiaid sydd â phrofiad o ddadleoli yn cael cynnig cyfle i ddatblygu a rhannu eu sgiliau creadigol gyda WNO, dysgu gan arweinwyr y diwydiant celfyddydau, cael mynediad at gyfleoedd gwaith a rhannu straeon yn ehangach gyda chynulleidfa oedd theatr.'

Rosie Leach
Cyngor Ffoaduriaid Cymru

'Ffurfiwyd y bartneriaeth i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gael mynediad at y celfyddydau a datblygu eu sgiliau. Mae'n wych gweld y mathau hyn o brosiectau yn cael eu harwain gan Gwmni opera adnabyddus fel WNO. Mae'n helpu i amlygu'r syniad y gall cymunedau o wahanol gefndiroedd a lefelau sgiliau helpu ei gilydd.'

Mehdi Razi
Darpar Gynhyrchydd ar Beyond the Rainbow



Dawn

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i ddatblygu doniau newydd, bu i'r Tymor RHYDDID ddwyn ynghyd bob elfen o'r cwmni perfformio, o'n Corws a Cherddorfa WNO hyfryd i'n Corws Cymunedol ac Opera Ieuencid llwyddiannus WNO.

Dead Man Walking

Yn cynnwys cast arbennig o unigolion proffesiynol byd-eang, cynaelodau ac aelodau presennol **Opera Ieuencid WNO**, myfyrwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a chorws **Opera Ieuencid WNO** yn cynnwys 12 o blant rhwng 8-12 oed, a'r cwbl i gyfeiliant grym Cerddorfa WNO.

Pwyswch i weld ein fideo
y tu ôl i'r llen. 

Fidelio

60 aelod o **Gorws Cymunedol y De WNO** yn perfformio ochr yn ochr â Chorws WNO a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

Brundibár

Am y tro cyntaf i'r Cwmni, bu i aelodau a chyn-aelodau **Opera Ieuencid WNO** berfformio fel rhan o'r tymor prif raddfa dan arweiniad ein Cyfarwyddwr Artistig Syr David Pountney a'r Cyfarwyddwr Cerdd Tomáš Hanus.

Cliciwch i weld ein fideo
y tu ôl i'r llen. 



Cefnogwyd Brundibár gan David Seligman ac er cof am Philippa Seligman, The Gibbs Charitable Trust a'r Edith Rudinger Gray Trust.

Opera Ieuencid WNO. Brundibár. Llun gan Johan Persson

'Bu i Opera Cenedlaethol Cymru gadw ergyd fwyaf yr opera, er ei bod mor deimladwy a llawen ag yr oedd yn boenus, tan y diwedd.'

Fiona Maddocks

The Observer



'Mae dweud fy mod wirioneddol wedi fy llethu gan berfformiadd ddoe yn ddweud cynnil.'

Angharad Horsey, **rhiant**
Opera Ieuencid WNO



RHYDDID

FREEDOM

lechyd

Eleni, bu i ni barhau i ddatblygu ein gwaith iechyd a lles, gan ddarparu sesiynau **Dewch i Ganu** wythnosol yn Ysbyty Prifysgol Cymru a'n dangosiadau sinema rheolaidd sy'n ystyriol o ddementia gyda Theatr Colwyn a Pontio. Yn ogystal, bu i ni roi ein prosiect newydd, **Cysur**, dan brawf yn Abertawe, prosiect celfyddydau creadigol rhyng-genedlaethol wedi'i ddylunio i godi ymwybyddiaeth o ddementia ymhliith pobl ifanc a darparu lle i'r rheiny sydd wedi'u heffeithio gan ddementia gael treulio amser gyda chyfeillion a theulu drwy ganu.

‘...Am weithgaredd arbennig a buddiol i'r ddwy genhedlaeth, mor bwysig. Diolch am ofyn i ni gymryd rhan. Mae clywed bod y plant wedi cael gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddementia yn wych.’

Nicola Williams Rheolwr y Cartref Gofal, Cartref Gofal Hengoed Court/Park





Côr Cysur

Cynigiasom sesiynau wythnosol i'r rheiny sydd naill ai'n byw gyda dementia neu sydd wedi'u heffeithio ganddo, a'u teuluoedd i ddod ynghyd a chanu mewn lleoliad anffurfiol, cyfeillgar.

Ysgolion Cysur

Bu i ni sefydlu rhaglen addysgol gyda dau o ysgolion cynradd lleol yn Abertawe, gan ddarparu cyfuniad o sesiynau ymwybyddiaeth dementia, ysgrifennu creadigol, gweithdai cerddoriaeth – dan arweiniad ymarferwyr o WNO a'r Gymdeithas Alzheimer – ac ymweliad â Chartref Gofal Hengoed Court/Park, a roddodd gyfle i'r plant gael cyfarfod â phobl sy'n byw â'r cyflwr, a threulio amser gyda nhw.

Daeth y ddau grŵp ynghyd i rannu eu cerddoriaeth, caneuon a barddoniaeth – i gyfeiliant aelodau Cerddorfa WNO – yng Nghanolfan Celfyddydau Taliesin, Abertawe.

I ddysgu mwy am Cysur, gwyliwch
ein ffilm Dementia a ni.



Partneriaid Creadigol

Mae cydweithio wrth wraidd ein gwaith. Law yn llaw â rhaglen o berfformiadau, digwyddiadau ieuengtid, cymunedol a digidol, mae WNO yn ffurfio partneriaethau artistig gyda chwmnïau opera a phartneriaid diwylliannol ar draws y byd.

4-Wood TV & Film Construction, Aberdare Coliseum, All Scene All Props, Allens Croft Primary School, Alzheimer's Society, Amnesty International UK, Anglesey Primary School, APOLLO UK Productions Ltd, Arts Connect, Aston Manor School, ATG Productions Ltd, Barry Memo Arts Centre, Bay Productions, BBC Cymru Wales / Research and Development, BBC National Orchestra of Wales, BBC Online, BBC Radio 3, BBC One Wales, BBC Two Wales, Birmingham Hippodrome, Birmingham MAC, Birmingham Town Hall, Black Country Music Hubs, Blessed W. Davies Primary School, Bodnant Gardens, Brecon Theatr Brycheiniog, Bristol Hippodrome (ATG), Brno Pavilion, Bryntirion High School, Cann Bridge Special School, CânSing, Cardiff University School of Modern Languages, Cardiff West Community High School, Centre for Musical Arts, Chandos Primary School, Chapter Arts Centre, Chapter Arts Centre, Cherry Orchard School, Cherryoak School, Chichester Festival Theatre, Children's Commission for Wales, Christchurch CP School, Colmore Junior and Infant School, Council Chamber, Glamorgan Building, Dementia UK, Dickens Heath Primary School, Dubai British School, Dubai Opera House, Eisteddfod, Elburton Primary School, Elliott and Harper, English National Opera, Erdington Hall Primary School, Forget Me Not, Fundació Del Gran Teatre De Liceu, Galeri, Galeri Caernarfon, George Dixon Junior and Infant School, Glyncroed Primary, Glyndebourne Festival Opera, Glyndwr University, Good Chance Theatre, Great Hall, Greenholm Primary School, Grove & St Chad's Schools, Grove Primary School, Hawthorn Primary School, Hengoed Park Care Home, Herbert Thompson Primary School, Hereford Courtyard, Heronsbridge School, High Street Primary School, High Street Primary School Plymouth, Hoddinott Hall, Holte Comprehensive School, Houston Grand Opera, Injan Cyf, John Frost High School, John Hansard Gallery, Kiln Theatre, Lansdowne Primary

School, Liverpool Empire Theatre (ATG), Llandrillo yn Rhos, Llandudno Venue Cymru, Llangyfelach Primary, Lozells Primary and Junior School, Maes Ebbw School, Maes Y Coed Primary School, Maesteg Comprehensive School, Marlborough Primary School, Maryvale School, Mayfield School, Meadowbank School, Meena Centre, Milford Haven Torch, Millbank Primary School, Milton Keynes Theatre (ATG), MM! The Party Limited, Moor Hall Primary School, Moorland Primary School, Mount Wise Community Primary, Musical Memories , National Assembly for Wales, National Dance Company Wales, National Eisteddfod of Wales, National Theatre, National Theatre Productions Limited, Nelson Mandela School, Newport Riverfront, Nonsuch Primary School, Northampton Royal, Norwich Playhouse, Notre Dame Secondary School, Oasis Cardiff, Opera North , Our Lady of Lourdes Catholic Primary School, Our Roots, Oxford New Theatre (ATG), Oxford Playhouse, Parkland Primary School, Pen y Fro Primary School, Penrhyn New Broughton School, Pierhead Building, Pilgrim Primary School, Plymouth School of Creative Arts, Plymouth Theatre Royal, Plympton Academy, Pontio Bangor, Q3 Tipton, Queensbury School, Quinton Church Primary School, R G S Springfield School, Raddlebarn Primary School, Regents Park Community Primary School, Riverbank Special School, Royal Opera House, Royal Shakespeare Company, Royal Welsh College of Music & Drama, Rydal School Penrhos, Ryders Green Primary School, Salesman We 2019 LTD, Saltash.net School, Shireland Hall Primary Academy, Sketty Primary School, Somerville Primary School, Southampton Mayflower, Southampton University, St Andrews Primary School, St Asaph's Cathedral, St Bernadette's Primary School, St Chad's Primary School, St Christopher's School, St Clare's Primary School, St Cuthbert's Primary, St Cyres High School, St David's Cathedral, St David's Hall, St George's Primary School, St Helen's Primary

School, St Joseph's Cathedral Primary, St Joseph's Catholic Primary, St Joseph's Primary School, St Mellons Primary, St Michael's Church of England Aided Primary School, St Peters Primary School, St Thomas More Catholic School, St. Winefride's Primary School, Starbank Primary School, Stoke Damerel Primary School, Stoke Park School and Community Technology College, Stuart Road Primary School, Swansea Centre for Innovative Ageing , Swansea Council, Swansea Taliesin Arts Centre, Swansea University, Swindon Wyvern, Taliesin Arts Centre, Temple of Peace, The Bridge Theatre, The Chancellors Hall, The Exchange Hotel, The Great Hall, Swansea, The Hollies Special School, The Hub, Hazelwell, The Link Academy, The Royal Horticultural Society, The Senedd, Theatr Clwyd, Theatr Colwyn, Theatr Hafren, Theatre Bonn, Theatre Severn Shrewsbury, Tie Line Productions Ltd, Torbridge High, University Hospital of Wales, University of South Wales, Victoria CP School, Wales Millennium Centre, Welsh Centre for International Affairs, Welsh Refugee Council, Weston Studio, Widey Court School, Wild Creations Ltd, William Aston Hall, Willowbrook Primary, Winchester Theatre Royal, Windsor Clive Primary School, Wolverhampton University, Woodlands Special School, Yeovil Octagon Theatre, Yew Tree Primary School, Young Vic, Ysgol Bro Famau, Ysgol Cwm Gwyddon, Ysgol Degawny, Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Emrys ap Iwan, Ysgol Ffordd Dyffryn, Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gogarth, Ysgol Gymraeg Mornant, Ysgol Gymraeg y Cwm, Ysgol Gynradd Gymraeg Lon Las, Ysgol Iau Hen Golwyn, Ysgol John Bright, Ysgol Llagelynnin, Ysgol Llanddulas, Ysgol Merllyn, Ysgol Morfa Rhianedd, Ysgol Nantgwyn, Ysgol Pen Cae, Ysgol Penybrynn, Ysgol Rydal Penrhos, Ysgol San Sior, Ysgol St Elfod, Ysgol Treganna, Ysgol Tryfan, Ysgol Tudno, Ysgol y Plas, Ystrad Mynach Primary School.

Diolch

Dymuna Opera Cenedlaethol Cymru ddiolch yn fawr iawn i'w holl gefnogwyr yn 2018/2019. Eich haelioni chi sy'n ein galluogi i barhau i greu, estyn allan ac ysbrydoli. Diolch i chi, am fod yn rhan o'n stori.

Nodwr

Ei Uchelder Brenhinol
The Prince of Wales

Llywydd Anhydeddus

Mathew Prichard CBE, DL

Llywydd Emeritws

Lord Davies of Llandinam

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council England

Bwrdd Cyfarwyddwyr WNO

Yvette Vaughn-Jones (Chair)
Nicola Amery
Lynne Berry OBE
Dr Chitra Bharucha
Toks Dada
Manon Edwards Ahir
Daniel Evans
Tony Hales CBE (2011 – 2019)
Fflur Jones (2014 – 2019)
Sam Jones
Henry Little
Andrew Miller
Mark Molyneux (Chair 2016 – 2019)
Aileen Richards
Elen ap Robert
Martyn Ryan
Will Wyatt CBE (2011 – 2019)

Bwrdd Ymgynghori WNO

Justin Albert
Nancy Lavin Albert
Saphié Ashtiani
Geraint Talfan Davies OBE DL
Colin Fletcher
Keith Griffiths
Harry Hyman
Samantha Maskrey
Gordon Pell
Marian Pell
Christopher Pickup, LVO OBE
John J Studzinski CBE

Partneriaid Busnes a Nodwyr

Ancre Hill Estates
Associated British Ports
Capital Apartments
Eversheds Sutherland LLP
MAC Cosmetics
A Mclays & Co.
Mosimann's
Pendine Park
Restaurant James Sommerin
Spire Healthcare
Welsh Government

Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

The Ambache Charitable Trust
Baron Davenport's Charity
The Barbara Whatmore Charitable Trust
Bateman Family Charitable Trust
The Bernarr Rainbow Trust
The Boltini Trust
The Derek Hill Foundation
Chrimes Family Foundation
Colwinston Charitable Trust
The Darkley Trust
Dunard Fund
Edith Rudinger Gray Trust
Ernest Cook Trust
Esmée Fairbairn Foundation
The Eveson Charitable Trust
Garfield Weston Foundation
The Gaynor Cemlyn Jones Trusts
Gibbs Charitable Trust
The GJW Turner Trust
Grantham Yorke Trust
The Gwendoline and Margaret Davies Charity
The Hodge Foundation
International Music and Art Foundation
Jenour Foundation
The John Coates Charitable Trust
The John S Cohen Foundation
Joseph Strong Frazer Trust
Joyce Fletcher Charitable Trust
The Laspen Trust
The Leche Trust
Leonard Chadwick Charitable Trust
Millichope Foundation
National Lottery Community Fund
The Nicholas John Trust
Noël Coward Foundation
Oakdale Trust
Oleg Prokofiev Trust
The Owen Family Trust
Players of People's Postcode Lottery
PRS Foundation's The Open Fund
Rainbow Dickinson Trust
RVW Trust
The Samuel Gardner Memorial Trust
Simon Gibson Charitable Trust
Sugarbush Trust

The Veronica Awdry Charitable Trust
Anhysbys (3)

Cylch y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Anthony & Elizabeth Bunker
Andrew Fletcher
David Macfarlane
Professor Rolf and Mrs Shirley Olsen
Marian & Gordon Pell
Mathew & Lucy Prichard
Clive & Sylvia Richards
John Ward

Nodwyr Diemwnt

Philippa & David Seligman

War and Peace Cefnogwyr Rôl

Anthony & Elizabeth Bunker
Susan Corby & John Ward
Dr Julia P Ellis
Christopher Greene & Annmaree O'Keeffe
Malcolm Herring
Jenour Foundation
Sheri & Janet Tullah
Simon Gibson Charitable Trust

War and Peace

Cefnogwyr Cynyrchiau
David Macfarlane
The Derek Hill Foundation

War and Peace

Cefnogwyr Corws

Ann Bryan
Peter & Kate Carroll
Mrs Rose Clay
Ann & Giles Currie
Rhys & Susan David
Dr J and Dr S Dransfield
Charles Dumas
D Morgan
Peter Espenhahn
Christine M Evans
Sigi Evans
Colin & Sylvia Fletcher
Martin & Jo Furber
Janet M Hammond
Menna Richards

Mr and Mrs John Harding
Mr & Mrs John & Maggie Hayes
Kenneth Henderson

Mrs Paula Hyman
Dr Susan Iles

Richard Jackson
Gloria Jenkins
David John & Lady Hunt
Huw & Jan Lewis
Bob Lowe

Mr C Mathias

Don Moore

Sally Morgan
Oleg Prokofiev Trust

Lynne Plummer

Mr & Mrs Brian P Price

Brian & Anne Smith

Emma Whitaker

Will Wyatt CBE

George Yates

Anhysbys (7)

Syndicet Verdi WNO

Neville & Nicola Abraham

Margaret & Stephen Bickford-Smith

Anthony Boswood

Anthony & Elizabeth Bunker

Patrick & Wendy Elias

Dr Julia P Ellis

Colin & Sylvia Fletcher

Luke Gardiner

Christopher Greene & Annmaree O'Keeffe

Mr & Mrs John & Maggie Hayes

Harry Hyman & Melanie Meads

David John & Lady Hunt

Steven & Meg John

Sir Timothy & Lady Lloyd

Peter & Veronica Lofthouse

David Macfarlane

William & Felicity Mather

Harriet & Michael Maunsell

Hugh & Eleanor Paget

Marian & Gordon Pell

Mr & Mrs Anthony Pitt-Rivers

Mathew & Lucy Prichard

Ivor Samuels & Gerry Wakelin

Dr David Speller

David & Margaret Walker

John Ward

Veronica Warner & Viv Wylie
Anhysbys (2)

RHYDDID

Cefnogwr Corfforaethol

Associated British Ports

Cefnogwyr Ymddiriedolaeth

The Darkley Trust
Edith Rudinger Gray Charitable Trust
The Gibbs Charitable Trust
Anhysbys (1)

Nodwyr RHYDDID WNO

Ann Bryan

Dr J and Dr S Dransfield

Kenneth Henderson

Gloria Jenkins

Henry Lewis

Gaynor Scrivenger

David Macfarlane

Janet MacGregor

Don Moore

Marigold Oakley

Philippa & David Seligman

Emma Whitaker

Anhysbys (2)

Don Pasquale

Colwinston Charitable Trust

Bwrsariaethau WNO

Anthony Evans Scholarship

Chris Ball Bursary

Sir John Moores Award

Parry Family Bursary

Sch fer Bursary

Mary Warner Trust

Shirley & Rolf Olsen Bursary

Partneriaid WNO

Cyfeillion WNO

Cyfeillion Americanaid
Opera Cenedlaethol Cymru

Beth sydd nesaf?



Carmen

Bydd cynhyrchiad newydd Jo Davies, wedi ei leoli yng Nghanolbarth America yn y 1970au, yn cyflwyno'r holl angerdd a drama sy'n ddisgwylledig o'r opera eiconig hon yn ein Tymhorau Hydref 2019 a Gwanwyn 2020.




Les vêpres siciliennes

Mae trioleg Verdi Iwyddiannus WNO – *(La forza del destino* (2018) *Un ballo in maschera* (2019) – yn dod i ben yng ngwanwyn 2020 gyda'r gwfreiddiol *Les vêpres siciliennes*.



Così fan tutte aka Ysgol Gariad

Yn haf 2020, bydd Opera Cenedlaethol Cymru yn mynd â ni'n ôl i'r ysgol gyda chynhyrchiad newydd sbon o opera gomig Mozart. Wedi'i gosod mewn ysgol uwchradd yn y 1970au cynnar, bydd y sioe hon yn teithio i theatrau canolig ledled Cymru a Lloegr.



The Black Spider

Fis Ebrill 2020, bydd Opera leuenctid WNO yn llwyfannu perfformiad o *The Black Spider* gan Judith Weir yng Nghanolfan y Celfyddydau Memo, y Barri.



Beethoven 250

Fel rhan o Beethoven 250, mae Opera Cenedlaethol Cymru yn cydweithio â Cherddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC, Neuadd Dewi Sant, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Sinfonia Cymru i drefnu cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu bywyd a gwaith y cyfansoddwr.



The Nightingale | Bluebeard's Castle

Bydd haf 2020 yn gweld un o gynberfformwyr WNO Syr Bryn Terfel yn dychwelyd i chwarae'r brif ran yn *Bluebeard's Castle*, opera hunlfus Bartok, ar gyfer bil dwbl cyferbyniol gyda'r stori dylwyth teg swynol, *The Nightingale*, am gyfres o berfformiadau yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd a'r Royal Opera House, Llundain.



Dathlu Pum Mlynedd ers dechrau ein Gwaith Rheolaidd ag Ysgolion

I ddathlu pum mlynedd ers dechrau ein rhaglen ysgolion rheolaidd yn ne Cymru, bydd yr holl ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn y cynllun ar hyn o bryd yn dod ynghyd gyda Cherddorfa WNO i llwyfannu perfformiad mawreddog yn haf 2020.

Cadwch mewn cysylltiad â WNO

wno.org.uk



Supported by
 **The National Lottery**[®]
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

 **ARTS COUNCIL
ENGLAND**
Supported using public funding by
LOTTERY FUNDED

Elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr yw Opera Cenedlaethol Cymru (Rhif 221538). Ei hymddiriedolwr yw Welsh National Opera Ltd, cwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (Rhif 454297).

 **FUNDRAISING
REGULATOR**
Registered with